

BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 4 – Hydref 2014

Ymweliadau John Wesley â Gogledd Cymru a'r Pulpud yn y Goeden

Gwyddom fod John Wesley yn pregethu yn yr awyr agored ac yn cael tyfaoedd i wrando arno ble bynnag yr oedd yn mynd. Yr oedd hyn oherwydd gwrthwynebiad offeiriad yr Eglwys sefydledig i'w neges efengylaidd, ac o ganlyniad yr oeddynt yn cau eu plwyfi oddiwrtho. Ond yr oedd rhai offeiriad o'i blaid, ac yn llawen iawn i'w glywed yn pregethu, os nad ym mhulpu eu heglwysi, yna tu allan oddifewn i furiau'r llan.

Un o'r rhain oedd eglwys y plwyf, Nantglyn, gerllaw Dinbych, ar odre Mynydd Hiraethog. Oddimewn i furiau'r llan sydd yn amgylchynu'r eglwys, mae coed ywen yn tyfu. Yn llyfryn hanes y plwyf (Eric Griffiths, *Nantglyn*, 1984, t.13) dywedir hyn:

Fe gysylltir traddodiad diddorol a'r ywen fwyaf, yr un a saif wrth ochr y llwybr sy'n arwain at yr Eglwys. Mae agoriad ar un ochr y goeden, sydd wedi ei hadeiladu a chalch a charreg, i ffurfio math o gadair neu bulpu wedi ei chodi allan ohoni lle caiff unigolun ddringo i fyny iddi ac edrych i lawr ar y bobl.

Cred llawer o'r brodorion, hyd yn oed heddiw, mae pulpu oedd hi ar gyfer pregethwr awyr agored, ac fod yr enwog John Wesley ei hun wedi pregethu yno un tro i dyrfa fawr.

Y tebygrwydd felly yw fod offeiriad Nantglyn ar y pryd yn gefnogol i neges Wesley ac yn awyddus i roi gwrandawriad iddo. Ni wya'r ym mha flwyddyn y pregethodd Wesley yno a d'oes dim cofnod o hynny unai yn ei ddyddiaduron nac yn ei ddyddlyfrau.

Ymweliad cyntaf John Wesley â Chymru oedd yn 1739, blwyddyn ar ôl ei droedigaeth. Cyn ei farwolaeth yn 1791 gwnaeth gyfanswm o 46 taith i mewn i'r wlad:

- 29 ohonynt i Dde Cymru.
- 3 i Ogledd Cymru.
- 3 trwy Ogledd Cymru o Gaer i Iwerddon.
- 10 o Dde Cymru, trwy'r canoldir a Gogledd Cymru i Iwerddon ac yn ôl.
- 1 o Iwerddon i Dde Cymru ar long.

Felly, heblaw am y 3 ymweliad o dan b), defnyddiodd Wesley Ogledd Cymru ond fel cyfrwng i fynd a dod o Iwerddon. Paham hyn?

Oherwydd ei broblem efo'r iaith Gymraeg yn syml. Ei agwedd ati oedd: 'Oh what a heavy curse was that confusion of tongues!'. Dyna paham y gadawodd y gwaith o efengylu Cymru i'w gyfaill Howell Harris. A dyna sut y cafodd Methodistaeth Galfinaidd fwy o ddylanwad ar Gymru erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Ar y dechrau, 'roedd y ddwy adain, oedd yn hanu o'r un deffroad efengylaidd, yn gyfeillgar â'u gilydd. Ond erbyn amser Edward Jones Bathafarn (Rhuthun) ac Evan Roberts Dinbych, dau



arloeswr cynnar Wesleaeth Gymraeg, oddeutu 1800, yr oedd y Calfiniaid yn troi'n elyniaethus tuag at y pregethwyr Wesleidd, am eu bod yn pregethu am ras Duw sy'n agored i bawb ac nid yn gyfyngedig i'r etholedig rai.

P'run bynnag, gwnaeth Wesley y dair ymweliad â Gogledd Cymru ar ei ffordd o Gaer i Iwerddon trwy'r Wyddgrug, lle'r oedd cymdeithas Seisnig Wesleidd. Ac felly mae'n ddigon posibl ei fod wedi ymweld â Nantglyn (oherwydd gwahoddiad y ficer) i bregethu o'r goeden.

Ar 13 Awst 1756 cofnodir yn ei ddyddlyfr iddo alw ym Mhlas Bech, Llansantffraid, Glan Conwy, cartref William Roberts, un o'r Wesleaid cyntaf yng Ngogledd Cymru, ac yn ddyn o sylwedd ysprydol mawr. Tybed mae dyma pryd yr ymwelodd o Nantglyn?

Ar waethaf ei anallu i siarad y Gymraeg cafodd Wesley ar y cyfan dderbyniad gwresog yng Nghymru, er iddo gael erledigaeth mewn rhai lleoedd. Ond nid yn Nantglyn – mae'n amlwg fod y ficer yn bleidiol i'w achos a'r bobl yn eiddgar i'w glywed.

Pa ffordd ddaeth o i gyrraedd Nantglyn? Gallasai ddod unai o Lanelwy neu o Ddinbych, neu ar yr hen ffordd dyrpeg (yr A5 heddiw) o Bentrefoelas neu Cerrig y Drudion dros mynydd Hiraethog. Rhaid cofio mae ar gefn cefyl y byddai'n teithio.

Teithiau Wesley o'r Amwythig weithiau i Groesoswallt ac ymlaen i Gorwen; yna o Gorwen i Lanrwst gan groesi'r afon Conwy ar y fferi yn Nhal y Cafn, ac yna ymlaen i Benmaenmawr a Bangor a Chaergybi i fynd trosodd i Iwerddon. Gallasai yn hawdd fod wedi mynd i Nantglyn yr amser hynny.

Wedi dweud hyn oll, mae'r traddodiad ei fod wedi pregethu o ben y goeden yn eglwys y plwyf, Nantglyn, yn ddigon cryf i ni gredu ynddo heddiw.

(Dibynnais yn fawr ar gasgliad y diweddar A. H. Williams o gyfeiriadau Wesley o'i ddyddlyfrau a'i ddyddiaduron: *John Wesley In Wales*, Cardiff: University of Wales Press 1971.)

MARTIN EVANS-JONES

Nodyn Golygyddol

Trefnwyd 'pererindod' ar gyfer y Gymdeithas Hanes eto eleni gan Mr Robin Jones, aelod gweithgar o'r Pwyllgor Hanes. Aethom y tro hwn i ardal Ruthun a Dinbych er mwyn ymweld â lleoedd yng Ngogledd Cymru sy'n bwysig yn ein hanes fel Methodistiaid. Ein harweinydd oedd y Parch. Martin Evans-Jones ac rydym yn ddyledus iawn iddo ef a Robin Jones am drefnu diwrnod mor ddiddorol ac am Gadeirydd y Synod, y Parch. Jennie Hurd, am ddod a chymryd rhan yn y digwyddiad. Daeth nifer da ar y pererindod ac roeddem yn ffodus iawn gyda'r tywydd. Rwy'n sicr ein bod ni i gyd wedi mwynhau'r achlysur a wedi dysgu rhywbeth newydd. Fel arfer, cafwyd adroddiad a lluniau o'r pererindod yn y *Gwyllydydd* (Awst-Medi 2014). Braint a phleser arbennig oedd cael cwmni'r Parch. a Mrs E. H. Griffiths. Bu hanes ac emynau'r Methodistiaid erioed yn agos at galon 'E.H.' ac ef yw cyn-Lywydd y Gymdeithas Hanes.

Yn yr un rhifyn o'r *Gwyllydydd* defnyddiodd Gwyndaf Roberts ei golofn 'Cnoi Cil' i sôn am bwysigrwydd hanes. Cyfeiriodd at y llyfrau safonol, sef *Hanes Wesleyaeth Gymreig* gan Hugh Jones a *Welsh Wesleyan Methodism 1800-1858* gan A. H. Williams, a'r deunydd a gyhoeddwyd yn *Yr Eurgrawn* a chylchgronau a phapurau eraill. Mae ei eiriau amdanynt yn crynhoi'n berffaith yr hyn y mae'r Gymdeithas Hanes yn ceisio cyflawni:

Wrth droi cefn ar gyfrolau o'r fath ac anwybyddu hanes ein cyndeidiau enwadol, rydym mewn peryg o fynd yn debyg i'r mewnfudwyr hynny mae Tilsley yn eu disgrifio fel y *di-orffennol drigolion*. Heb wybodaeth o'n gorffennol nid oes yna ystyr i'n presennol, a fawr o ddim gobaith ar gyfer y dyfodol chwaith.

Blwyddyn ym Mywyd Gweinidog Wesleidd Ifanc

Tref ddymunol yw Rhydaman, yng Nghwm Aman, Sir Gaerfyrddin, rhyw ddwy filltir ar bymtheg o Abertawe. Mae poblogaeth y dref dros 5,000 a dyma'r brif ganolfan siopa ar gyfer yr holl bentrefi cyfagos. Ganrif yn ôl, roedd economi'r dref yn dibynnu ar y gwaith tunplat a'r pyllau glo caled ond nid felly mwyach oherwydd gwelwyd dirywiad yn y diwydiannau hyn, yn enwedig o'r 1930au ymlaen, gan arwain at gynydd sylweddol mewn diweithdra yn yr ardal. Er hynny, roedd cyfradd diweithdra yng Nghwm Aman, sef 14%, gryn lawer yn is na chyfradd Cymru gyfan yn y 1930au.

I Rydaman y daeth William John Roberts, gweinidog Wesleidd ifanc, yn y flwyddyn 1931, er mwyn gofalu am y Capel Wesleidd Saesneg yn Stryd y Gwynt. O ystyried mai ym Mlaenau Ffestiniog y ganed W.J. (fel y'i hadwaenid gan lawer gydol ei oes) ym 1904, a'i fod wedi'i fagu yno yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, a threulio ei flwyddyn gyntaf ar ôl graddio yn weinidog ar gapel Cymraeg Bethel, Llanberis, mae'n rhywfaint o syndod ei fod wedi symud oddi yno i Gylchdaith Wesleidd Saesneg Llanelli a Chaerfyrddin. Fodd bynnag, fel y nodwyd ymhnen blynnyddoedd wedyn yn ei farwgoffa yn *Y Gwyllydydd Newydd*, roedd prinder cyfleoedd ar y pryd yn y gwaith Cymraeg. A dylid cofio bod digon o Gymraeg yn Rhydaman pan aeth W.J. yno: roedd dros 80 y cant o'r boblogaeth yn gallu siarad 'iaith y nefoedd' yn y 1930au a Chwm Aman bryd hynny oedd y lle Cymreiciaf yn Sir Gaerfyrddin.

Nid oedd W.J. wedi priodi pan gyrhaeddodd Rydaman a chafodd lety ym Maes yr Haf, Stryd Arthur. Enwyd y stryd hon ar ôl Arthur David Herbert, aelod o deulu'r Herbertiaid sef y teulu mwyaf dylanwadol yn yr ardal bryd hynny. William Herbert, aelod mwyaf blaenllaw'r teulu mae'n debyg, a fu'n gyfrifol ymhlith pethau eraill am ddod â thrydan i'r dref, oedd un o sylfaenwyr y Gospel Hall yn Rhydaman, sef canolfan leol Brodyr Plymouth. Yn wir, yn ystod degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif, roedd gan Rydaman lawer iawn o addoldai, gryn ugain neu ragor, gan gynnwys nid yn unig adeiladau'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig ond hefyd bob enwad anghydfurfiol dan haul. Cymraeg oedd y brif iaith yn y rhan fwyaf ohonynt ac ymhlith y capeli Cymraeg roedd tri lle cafwyd gweinidogaeth rhai o hoelion wyth y cyfnod ar ryw adeg neu'i gilydd: Gellimanwydd (Christian Temple) sef capel yr Annibynwyr lle bu'r Parchedig D. Tegfan Davies yn weinidog o 1916 i 1965 a lle claddwyd nifer o enwogion y fro gan gynnwys Watcyn Wyn, James Griffiths AS a'i frawd Amanwy; Bethania, Capel y Methodistiaid Calфинаidd lle bu William Nantlais Williams yn weinidog o 1900 hyd 1944 (byddai W.J. yn ymweld â Nantlais o bryd i'w gilydd) ac Ebeneser, Capel y Bedyddwyr, lle bu'r Parchedig E. Llwyd Williams (awdur y gân boblogaidd 'Pwy fydd yma mewn can mlynedd') yn weinidog rhwng 1936 a 1960. Fodd bynnag, roedd ambell addoldy yn cynnal y gweithgareddau yn Saesneg gan ofalu am anghenion y lleiafrif di-Gymraeg yn y dref, llawer ohonynt wedi dod i Gwm Aman i weithio yn y pyllau glo a'r diwydiannau cysylltiedig.

I'r capel Wesleidd Saesneg yn Stryd y Gwynt, un o brif strydoedd y dref, y daeth W.J. ym Medi 1931, ac yn ei feddiant roedd *Llyfr Emynu a Thonau y Methodistiaid Calфинаidd a Wesleidd* (argraffiad 1929) a gyflwynwyd iddo ar 23 Awst 1931 fel arwydd o werthfawrogiad ei gynulleidfa yng Nghapel Bethel, Llanberis, cyn iddo ymadael am Rydaman. Fel petai'n ategu

Seisnigrwydd ei eglwys newydd, roedd llechen i'w gweld y tu mewn yn cyfeirio at ddydd busnes, Samuel Callard, a ddaethai i'r ardal gyda'i dad, Thomas, o Torquay ym 1875 a mynd ati ar unwaith i godi'r capel Wesleidd, gan barhau i fod yn gysylltiedig â'r achos a chyflawni pob math o swyddogaethau yno, ac yntau hefyd yn rhedeg gwaith cemegol ym Mhontaman, tan ei farwolaeth ym 1907. Er bod y capel hwn yn bwysig, un yn unig ydoedd o sawl achos Wesleidd Saesneg yng Nghylchdaith Llanelli a Chaerfyrddin. Roedd W.J. yn gyfrifol am dri o'r achosion hynny.

Gwelir hyn yn amlwg o edrych ar ddyddiadur W.J. am y flwyddyn 1933. Roedd W.J. yn ddyddiadurwr brwd drwy gydol ei weinidogaeth a rhoddwyd y rhan fwyaf o'i ddyddiaduron i'r archifau Methodistiaid yn Llyfrgell John Rylands ym Mhrifysgol Manceinion. Ar hyn o bryd mae dyddiadur 1933 yn dal ym meddiant ei fab sef awdur yr ysgrif hon. Mae'n dangos bod W.J. yn cynnal gwasanaethau yn rhywle bron bob Sul o'r flwyddyn – yn Sir Gaerfyrddin gan mwyaf ond ambell dro mewn man arall yng Nghymru. Roedd yn uniongyrchol gyfrifol am dri chapel, yn Rhydaman, Pontarddulais a Chwm-gors. Dengys y dyddiadur fod W.J. ar y Suliau ym 1933 wedi cynnal 22 o wasanaethau yng Nghapel Wesleidd Rhydaman. Dim ond dau yn fwy oedd hynny nag yng nghapel Wesleidd Saesneg Pontarddulais, adeilad dymunol o oes Fictoria, a olygai daith o ryw 8 milltir ar fws neu drên neu ar droed hyd yn oed. Ar 22 Ionawr mae'n cofnodi yn ei ddyddiadur ei fod wedi cerdded yno mewn llai na dwyawr, a'i wobroedd cynulleidfa wael o 15 yn unig! Cwm-gors oedd y lleiaf o'i gapeli; ar gyfer gwasanaeth ganol yr wythnos neu ddigwyddiad cymdeithasol y byddai'n mynd yno fel rheol. Ond roedd i Gwm-gors le arbennig yng ngyrfa W.J., fel yr eglurodd unwaith i un o'i gyd-weinidogion ym 1958.

Fi oedd y gweinidog yno pan agorwyd y capel bach asbestos ar 9 Gorffennaf 1932, diwrnod hanesyddol, ar ddiwedd yr wythnos fwyaf gynhyrfus yn fy hanes. Heblaw am y sylfeini brics, cafodd y capel bach hwnnw yn llythrennol **ei adeiladu a'i agor** mewn pedwar diwrnod. Rwyf wedi defnyddio'r wythnos gynhyrfus honno lawer gwaith mewn anerchiadau wrth sôn am y genhadaeth gartref! Wna i byth anghofio'r daith mewn fan adeiladwyr i Ddociau Abertawe y bore yr agorwyd y capel, i nôl y 600 o deils oedd yn brin er mwyn gorffen y to. Roedd y dynion ar y to yn aros inni ddychwelyd, er mwyn parhau â'r gwaith da. Beth bynnag, mae eich clywed yn sôn am Gwm-gors yn deffro atgofion'.

Mae'n amlwg fod gan bobl Cwm-gors feddwl mawr o'u bugail. Meddai *Llais Llafur* yn Hydref 1933: 'Mae Eglwys Wesleidd Saesneg Cwm-gors yn parhau i ddangos cynnydd yn ei haelodaeth ers dyfodiad y Parch. W.J. Roberts BA'.

Ymhlith y capeli eraill yn y gylchdaith lle byddai'n pregethu'n rheolaidd roedd Hall Street, Llanelli (eglwys yr oedd arolygwyr y gylchdaith yn weinidog arni) a Chapel y Drindod, Cydweli. Ambell dro câi W.J. gyfle i gynnal gwasanaeth yn Gymraeg, yn arbennig felly pan fyddai ef a'i gyfaill da David Henriw Mason (1901-1969), gweinidog capel Wesleidd Cymraeg Tir-y-dail, Rhydaman (a agorwyd ym 1911) yn trefnu i gyfnwiedd pulpudau. Boed yn Gymraeg neu yn Saesneg, roedd y ddisgyblaeth o baratoi dwy bregeth ar gyfer pob Sul yn siŵr o fod yn hynod anodd i'r gweinidog mwyaf ymroddedig, fel y cyfeddyf W.J. yn ei ddyddiadur ddechrau Ionawr: 'Treulio'r diwrnod yn y tŷ yn ceisio gwneud pregeth. Rhoi cynnig ar sawl testun ond methu ac ar ôl swper dyma benderfynu cyfieithu pregeth Gymraeg. Cael diwrnod diflas;



dim pregeth yn dod'. Llawn cystal efallai mai dim ond 14 oedd yn bresennol yn Stryd y Gwynt i'w chlywed fore drannoeth.

Wrth reswm, roedd gan weinidog prysur bethau eraill yn galw yn ystod yr wythnos heblaw am baratoi a chynnal gwasanaethau'r Sul. Byddai'n arwain dosbarthiadau Beiblaidd yn ystod yr wythnos, yn cynnal cyfarfodydd ymddiriedolwyr ac weithiau gynifer â thri angladd mewn mis. Ym 1933 fe weinyddodd W.J. mewn 16 o angladdau i gyd – 174 rhwng 1931 a 1939. Efallai y byddai rhai'n gwybod a oedd hynny'n nifer eithaf nodweddiadol ai peidio ond dylid cofio, yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn 1933, mai dim ond wyth ar hugain oed oedd W.J. Fodd bynnag, yn yr oedran hwnnw roedd ganddo beth wmbredd o ynni fel ei fod yn gallu treulio llawer o'i amser rhydd yn ystod yr wythnos yn ymweld ag aelodau'r capeli yr oedd yn gyfrifol amdanynt, gartref neu yn yr ysbty.

Parhaodd gofal bugeiliol y praidd yn rhan ganolog o'i weinidogaeth drwy gydol ei oes. Ym 1962, pan aeth yn weinidog i Bramhall, Swydd Gaer, ei gylchdaith olaf, dywedodd yn llawen wrth un o'i gydweithwyr fod ei restr ymweld newydd yn cynnwys enwau pedwar cant o aelodau. Er hynny, roedd yn canfod amser ar gyfer diddordebau eraill. Yn ei farwgoffa i W.J. yn *Y Faner*, mae Huw Llewellyn Williams yn dweud fod ganddo, yn ogystal â'i hoffter o gasglu stampiau, 'hobi difyr arall, sef crwydro mynwentydd. Ar ei deithiau – ac yr oedd teithio yn orffwys a phleser iddo – ymwelai â'r fynwent ym mhob llan a thref'. Mae dyddiadur W.J. ar gyfer y flwyddyn 1933 yn dangos yn glir pa mor hoff ydoedd o grwydro mynwentydd (fel ei fab yntau o ran hynny). Er enghraifft, pan aeth i ymweld â Llundain ym mis Gorffennaf, aeth i fynwent Abney Park 'a gweld beddau y Cadfridog Booth, Henry Richard, Paxton Hood ayb'. Ar achlysur arall cofnododd yn ei ddyddiadur ei fod yn ystod ymweliad â Llanymddyfri wedi mynd i fynwent Llanfair ar y Bryn er mwyn gweld bedd William Williams, Pantycelyn. Yn ystod un o'i ymweliadau rheolaidd â'i gartref ym Mlaenau Ffestiniog, aeth ei gyfaill da Peter Macauley Owen ag ef yn y car (ni wnaeth W.J. erioed ddysgu gyrru car; dyna pam y byddai'n cerdded cymaint drwy ei oes) i bentref Nant Peris er mwyn gweld yn y fynwent yno fedd Thomas Jones Wheldon (1841-1916), gweinidog enwog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn ei ddydd. Ymhen blynnyddoedd fe benodwyd Peter Macauley Owen yn brifathro Ysgol Ramadeg Llanelwy.

Ond uchafbwynt y flwyddyn 1933 i W.J. oedd cael ei ordeinio yn yr Eglwys Fethodistaidd. Er ei fod, yn anarferol, eisoes wedi'i awdurdodi i weinyddu'r Cymun Sanctaidd, ac wedi gwneud hynny sawl gwaith yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn honno, roedd yn parhau serch hynny i fod yn weinidog ar brawf nes ei ordeinio ym Mehefin 1933. Cyn hynny ym 1930 roedd wedi graddio o Goleg Handsworth gyda gradd o Brifysgol Birmingham ac roedd yn cael y teitl 'Parchedig'. Yn unol â'r arfer gydag ymgeiswyr o Daleithiau Cymru, fe'i hordeiniwyd yn y Gymanfa Fethodistaidd. Cynhaliwyd y Gymanfa y flwyddyn honno yn Eglwys Fethodistaidd Sant Paul, Aberystwyth rhwng 13 a 15 Mehefin. Yn ei ddyddiadur ar gyfer 15 Mehefin cyfeiriodd W.J. at y ffaith fod tri arall yn cael eu hordeinio yr un diwrnod sef G. E. Breeze, E. O. Pugh a Rufus Roberts. 'Cefais amser da yn rhoi fy nhystiolaeth ac roedd y capel yn orlawn'. I nodi ei ordeiniad derbyniodd W.J. gopi o'r Beibl a lofnodwyd gan John Scott Lidgett, Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd ac Arthur W. Davies, Llywydd y Gymanfa (yr oedd W.J. wedi ei glywed yn pregethu ddeuddydd ynghynt: 'Ni wnaeth annerch yn arbennig o dda, rhy hir a Chymraeg gwael iawn'). Daeth nifer o deulu agosaf W.J. i lawr o'r gogledd ar gyfer y gwasanaeth ordeinio, ac yn eu plith ei rieni balch; ar y Sul canlynol yn Rhydaman 'fy nhad a'm mam oedd y cyntaf i dderbyn y Cymun o'm dwylo yn dilyn fy ordeiniad'. Fis yn ddiweddarach aeth W.J. i'r Gynhadledd Fethodistaidd a gynhaliwyd y flwyddyn honno yn Llundain ac fe'i derbyniodd, ynghyd â'r rhai a ordeiniwyd gan y Gynhadledd ei hun, 'yn weinidog yn y Cyfundeb llawn' drwy gymeradwyaeth y rhai oedd yn bresennol ac yn cynrychioli Methodistiaeth ym mhob rhan o Brydain. Ar ôl hynny cafodd gyfle i ymlacio drwy ymweld â Sw Llundain ac arddangosfa Madame Tussaud.

Er i ymholiadau ddod o fannau eraill gan gynnwys Caerdydd, fe

dderbyniodd W.J. wahoddiad unfrydol, yn y Cyfarfod Chwarter yn Hall Street, Llanelli, ddechrau mis Rhagfyr, i wasanaethu'r gylchdaith am flwyddyn arall. Yn wir fe arhosodd yn Rhydaman tan hydref 1935, pan ddechreuodd ar gyfnod o ddeuddeg mlynedd ar hugain yn weinidog Methodistiaidd yn Lloegr, nes y bu farw yn y tresi yn Ebrill 1967. Fodd bynnag, fe barhaodd yn deyrngar i'r achos Cymraeg drwy ei oes ac mae'n nodedig ei fod ef a Henriw Mason, a ddaeth yn gyfeillion yn ystod eu cyfnod yn Rhydaman, wedi gwasanaethu fel cyd-ysgrifenyddion yn y 1950au i'r Pwyllgor Sefydlog dros Fethodistiaeth yng Nghymru. Cydnabuwyd ei ymrwymiad i Fethodistiaeth Gymraeg hefyd ym 1966, flwyddyn cyn ei farwolaeth, pan wnaed ef yn aelod oes o'r Gymanfa Gymreig sef prif gorff cynrychioliadol Wesleaeth Gymraeg.

I gloi, arwydd o'r newid a ddaeth i ran Wesleaeth Gymraeg ers y 1930au yw fod o leiaf tri o'r capeli a oedd â rhan amlwg yng ngyrfa W.J. yn y dyddiau cynnar wedi peidio â bod yn addoldai Wesleidd. Mae capel Bethel, Llanberis, yn Eglwys Gatholig St John Jones ers y 1980au ac mae capel Methodistiaidd Stryd y Gwynt, Rhydaman, yn Eglwys Efengylaidd boblogaidd iawn ers 2003. A beth fuasai barn W.J. am yr hyn a ddigwyddodd i gapel Sant Paul, Aberystwyth, lle cafodd ei ordeinio ym 1933? Mae bellach yn dafarn, sef yr Academy, sy'n boblogaidd gyda myfyrwyr; o fewn yr adeilad o hyd mae rhai o'r nodweddion gwreiddiol gan gynnwys y pulpud. Go brin y buasai peth o'r fath wrth fodd W.J.!

ALUN ROBERTS

Thomas Coke a Methodistiaeth Gymraeg

Ymysg y dathliadau yn 2014 roedd un yn arbennig iawn i Fethodistiaid Cymreig. Ym mis Mai cynhaliwyd penwythnos o ddigwyddiadau yn Aberhonddu i gofio bywyd Thomas Coke a fu farw yn 1814. Yn rhifyn y *Gwyllydydd* Ebrill-Mai 2014 cyfeiriodd Cadeirydd y Synod at y digwyddiad hwn yn ei cholofn a chafwyd erthygl am Coke gan W. Arvon Roberts, aelod o'r Pwyllgor Hanes.

Ganwyd Thomas Coke yn Aberhonddu yn 1747. Wedi graddio yn Rhydychen fe'i ordeiniwyd yn offeiriad yn Eglwys Loegr. Yn 1776 syrthiodd dan ddylanwad John Wesley ac ymunodd â'r mudiad Methodistiaidd. Yn fuan daeth yn agos at Wesley, yn bennaf oherwydd ei allu fel gweinyddwr a'i egni rhyfeddol. Yn 1784 cafodd ei 'ordeinio' gan Wesley ar gyfer y gwaith efengylu yn America. Er iddo gyfrannu at y gwaith yn America, roedd gan Coke weledigaeth ehangach o sefydlu cenhadaeth byd-eang. Golygodd hyn lawer o deithiau anodd a pheryglus ar môr a thir, ynghyd ag ymdrechion diddiwedd i godi arian tuag at y gwaith, gan gynnwys rhoi'n hael o'i boced ei hun. Mae'n deg dweud mai Coke yn bennaf oedd yn gyfrifol am sefydlu gwaith cenhadu yr Eglwys Fethodistaidd Wesleidd. Bu farw yn 1814 ar fordaith genhadol.

Pwysigrwydd arbennig Coke i ni yw ei gyfraniad at sefydlu Methodistiaeth Gymraeg trwy berswadio'r Gynhadledd yn 1800 i anfon cenhadon i Gymru i weithio trwy'r iaith Gymraeg. Fel dywedodd Jennie Hurd:

Roedd gan Coke gonsŷrn i fynd â neges Arminiaidd Wesley am gariad Duw ac iachawdwriaeth *i bawb* i'w gyd-Gymry Cymraeg eu hiaith. Yn ogystal â gweithio dros genhadaeth Fethodistaidd mewn llefydd fel y Caribî, Gibraltar, Canada, Sierra Leone, Yr Alban ac Iwerddon, Coke fu'n gyfrifol am anfon Owen Davies a John Hughes, pregethwyr Methodistiaidd a Chymry Cymraeg, at eu pobl eu hunain er mwyn cyhoeddi neges Arminiaeth iddynt (*Gwyllydydd* 188 (Ebrill-Mai 2014) 2).

Oherwydd ei bwysigrwydd i Fethodistiaeth yng Nghymru, mae'n ddiddorol ystyried sut mae'r agwedd hon o waith Coke wedi'i asesu mewn rhai o'r llyfrau ac erthyglau amdano ac yn arbennig gan awduron o Gymru.

parhad ar y dudalen nesaf

Cyhoeddwyd dau gofiant Saesneg am Coke yn fuan wedi ei farwolaeth, sef *Life of the Rev. Thomas Coke* gan Jonathan Crowther, pregethwr a chyfaill da (Leeds, 1815) a chofiant swyddogol, *Life of the Rev. Thomas Coke* gan Samuel Drew (Llundain, 1817).

Ymddangosodd dau gofiant Cymraeg mewn cylchgronau yn y 19eg ganrif ac mae'r ddau yn ddibynnol iawn ar y llyfrau Saesneg. Tair blynedd yn unig wedi marwolaeth Coke, cyhoeddodd W. Evans gofiant, 'Hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Dr. Coke, gynt o Aberhonddu, Swydd Frecheiniog [sic.] yn *Yr Eurgrawn* (1817 *passim*). Yn hwyrach yn y ganrif, yn 1885-86, ysgrifennodd Samuel Davies 'Thomas Coke (1747-1814)' yn *Y Geninen* (3: 3 (Gorffennaf 1885) 166-72; 4: 2 (Ebrill 1886) 94-101). Prif amcan Evans a Davies oedd adrodd hanes bywyd Coke yn gronolegol. Er eu bod yn llawenau bod dyn mor ddylanwadol â Coke wedi dod o Gymru nid ydynt yn rhoi sylw arbennig i'w gyfraniad at sefydlu Methodistiaeth Gymraeg.

Cafwyd dwy ysgrif am Coke yn *Yr Eurgrawn* yn yr 20fed ganrif. Yn 1947, ar ddaucanmlwyddiant geni Coke, defnyddiodd D. Tecwyn Evans ei golofn olygyddol ym mis Tachwedd i roi crynodeb o fywyd Coke (*Eurgrawn* 1947: 321-5). Bu Tecwyn yn canmol ei egni, ei frwdfrydedd, a'i gyflawniadau mewn sawl maes, ond yn arbennig trwy ei ymrwymiad at genhadu fel dyletswydd mawr yr eglwys:

I Thomas Coke, y byd oll oedd "plwyf" Methodistiaeth, ond bu'n rhaid wrth ddeng mlynedd ar hugain o lafur dwys a diymod, caledwaith ac aberth, cyn y daeth dilynwy'r John Wesley i ystyried bod y Genhadaeth Dramor yn rhan anhepgor o'u bywyd a'u gwaith cyson fel dilynwy'r y Crist a fu farw dros y byd.

Aeth Tecwyn ymlaen i fynegi siom nad oedd pob aelod wedi dysgu'r wers eto, gan ddefnyddio gweddill ei golofn i annog pawb i gyfrannu'n hael at y gwaith genhadu. Cyfeiriodd hefyd at sylw gan J. Wesley Felix yn rhifyn *Y Cyfarwyddwr* (Medi 1947: 177-8) fod Coke 'heb amheuaeth ...yn un o'r gwŷr mwyaf a fagodd Cymru erioed', ac eto, meddai Tecwyn, 'ni wŷr Cymru ond y nesaf peth i ddim amdano. Ni wŷr lliaws ohonom sy'n perthyn i'r un Cyfundeb ag yntau fawr fwy amdano'.

Yr erthygl olaf i ymddangos am Coke yn *Yr Eurgrawn* oedd 'Thomas Coke: Cymro, Cenhadwr, Cristion' gan D. Eirwyn Morgan (*Eurgrawn* 1964: 87-91). Cyhoeddwyd yr erthygl yn gyntaf yn *Seren Cymru* ac roedd yr awdur yn amlwg yn awyddus i roi gwybodaeth am Coke i'r rhai nad oeddent yn Fethodistiaid: 'Cymro oedd Thomas Coke. Wesle. Cymro a Wesle digon pwysig i Gymry a phobol o bob enwad i glywed amdano ganrif a hanner wedi'i farw'.

Mae'r erthygl yn ystyried ei gyfraniad fel gweinyddwr, fel cyfaill Cymru ac Iwerddon, ac fel arloeswr cenhadol. Sylweddolodd Coke fod angen pregethu i bawb yn ei iaith ei hun:

Credai'n gydwybodol na ellid gwneud fawr o les 'oni fyddai'r pregethwy'r teithiol yn feistri ar yr iaith Gymraeg'. Gwirionedd mawr o enau dyn y dywedir amdano na fedrai ei hun onid 'geiriau rhaniad y bara yn y sacrament ac un pennill o "Cydonwn â'r angylaid lu". Thomas Coke biau'r clod am bregethu Gwyddeleg yn Iwerddon (1799) a phregethu Cymraeg yng Nghymru (1800) gan ei gyfundeb.

Yr unig lyfr am Coke yn y Gymraeg, hyd y gwn i, yw *Thomas Coke: y Cymro a'r Cenhadwr* gan William Owen Evans (Bangor: Y Llyfrfa, 1912). Mae'n cyfeirio at 'o leiaf bum bywgraffiad iddo' yn Saesneg ac yn cydnabod iddo ddibynnu arnynt yn ei gofiant, ond, er hynny, 'cynhwysa rai pethau nas ceir yn y Cofiannau Saesneg'. Mae'n rhoi tipyn o bwyslais ar Gymreictod Coke a'i gyfraniad arbennig i Fethodistiaeth Gymraeg:

Aeth John Wesley trwy Gymru tua deugain gwaith ar ei deithiau pregethwrol, ond ni adawodd gymaint ag un achos Cymraeg ar ei ôl: ni anfonodd gymaint ag un Cymru i efengylu yn iaith y bobl. Thomas Coke oedd y gŵr a ganfu'r modd i

ddwyn y genadwri Wesleidd i galonnau'r Cymry. Dadleuodd achos y genedl gerbron y gynhadledd Brydeinig a llwyddodd i sicrhau y ddau weinidog Wesleidd Cymraeg cyntaf i lafurio yn eu mysg. Ac wedi agor y drws i'r cenhadon, parhaodd i'w cefnogi hwy a'u cynorthwywyr tra y bu fyw. Ni chafodd Wesleath Gymreig noddwr mwy selog a haelionus nag efe (t.6).

Yn 1935 cyhoeddwyd yr hanes academaidd ardderchog am flynyddoedd cynnar Methodistiaeth Gymraeg, sef *Welsh Wesleyan Methodism 1800-1858* gan A. H. Williams (Bangor: Llyfrfa'r Methodistiaid). Er i Williams ysgrifennu ei hanes yn Saesneg roedd wedi defnyddio'r holl ffynonellau Cymraeg a Saesneg yn ei ymchwil. Mae'r llyfr yn rhoi canmoliaeth uchel iawn i Coke. Mae Williams yn dadlau'n gryf mai Coke yn hytrach nag Edward Jones oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu Wesleath Gymraeg:

...it was he [Coke], not Edward Jones, who was chiefly instrumental in founding Welsh Wesleyan Methodism. Many lands and many peoples are indebted to the labours of Thomas Coke. He thought, as Wesley thought, in terms of humanity, but he remembered, too, the claims of his native land (t.81).

Fel mae Williams yn egluro, roedd Coke yn argyhoeddedig mai'r unig ffordd o siarad â phobl yn effeithiol oedd trwy eu hiaith eu hunain:

...men cannot be instructed, and consequently cannot be converted, by the use of any language but that which they understand: and therefore, if we would convert them, under the Grace of God, we must apply to them in their own language (t.72).

Y cofiant safonol am Coke yw *Thomas Coke: Apostle of Methodism* gan John Vickers (Llundain: Epworth, 1969). Cyhoeddodd Vickers hefyd *Thomas Coke Revisited* (Evesham: Wesley Historical Society, 2010) ac mae wedi ysgrifennu nifer o erthyglau amdano. Yn anochel, wrth iddo drafod cyfraniad Coke at sefydlu Methodistiaeth Gymraeg, mae Vickers yn dibynnu'n drwm ar waith A. H. Williams ac mae hyn yn gwbl amlwg yn ei droed-nodiadau. Yn ychwanegol at ystyried cyfraniad Coke at sefydlu Wesleath Gymraeg mae Vickers yn trafod yr anawsterau a wynebwyd gan Coke wrth iddo geisio cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'i waith swmpus, *A Commentary on the Holy Bible* (6 cyfrol, 1801-07). Roedd Coke yn awyddus i gyhoeddi talfyriad o'r *Commentary* ar gyfer darllenwyr Cymraeg ond cafodd broblemau difrifol gyda'r broses o gyfieithu ac argraffu. Wedi ymdrech enfawr cyhoeddwyd fersiwn o'r *Esponiad* mewn tair cyfrol; ymddangosodd yr Hen Testament mewn dwy gyfrol yn 1806 ac 1808 ond bu rhaid aros tan 1813 cyn cyhoeddi'r gyfrol ar y Testament Newydd. Yn ôl Vickers, y gwaith hwn achosodd mwy o drafferth i Coke nag unrhyw gyhoeddiad arall ganddo:

Such time-consuming difficulties were the price Coke paid for his part in promoting Christian literacy and scriptural holiness among his fellow-Welshmen (*TC* t.332).

Fel mae Vickers yn pwysleisio, dangosodd ymrwymiad Coke at gyhoeddi'r *Esponiad* ei gonsyrm am ei wlad enedigol, er nad oedd ef ei hun yn siarad mwy nag ychydig o'r iaith Gymraeg:

...it serves as a further reminder of Coke's attachment to his native land. Though he himself spoke no more than a sentence or two of Welsh, he was fully aware of its importance as a medium of the Gospel, especially in North Wales (*TC Revisited* t.19).

Roedd cyfraniad Coke at ddatblygiad Methodistiaeth yn amhrisiadwy. Mae'n hyfryd meddwl mai yng nghanol ei holl ymdrechion i ledaenu'r efengyl trwy'r byd ni anghofiodd am anghenion ei wlad enedigol.

LIONEL MADDEN